



## **Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Canllaw i Ymgeiswyr**

## Contents

Cyflwyniad.....	3
Y Map Proses .....	3
Gwiriadau cymhwysedd .....	4
Adnewyddu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd .....	4
Cael ei chyflwyno i AGC (yn bersonol neu drwy'r post) o fewn tri mis i'r dyddiad dynoddi.Ein darparwr trydydd parti .....	5
Talu ffioedd .....	6
Gwiriadau adnabod gydag AGC .....	6
Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd .....	9
Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – y llwybr annibynnol	9
Gwirio statws eich tystysgrif ar-lein .....	10
Gwirio Tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd .....	10
Trin Gwybodaeth.....	11
Rhagor o Wybodaeth .....	11

## **Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd - Canllaw i ymgeiswyr Cyflwyniad**

Sefydlwyd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn 2012 ac mae'n disodli'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'r Awdurdod Diogelu Annibynnol blaenorol. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n cyfuno gwiriadau cofnodion troseddol a rhestr o unigolion a 'waharddwyd'.


Gall Arolygiaeth Gofal Cymru brosesu gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer unigolion y mae gofyn iddyn nhw gofrestru gyda ni (neu sydd wedi'u cysylltu fel arall â gwasanaeth cofrestredig) a lle naill ai nad ydynt yn gallu cael eu gwiriadau eu hunain neu maent wedi'u hatal yn gyfreithiol rhag gwneud hynny. Caiff ceisiadau sydd wedi'u cwblhau eu hanfon i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd lle caiff manylion ymgeisydd eu gwirio yn erbyn cofnodion yr heddlu a'r rhestr wahardd.

Hyd yn hyn, mae AGC wedi rheoli'r broses hon â llaw gan ddefnyddio ffurflenni cais copi caled (papur); ymgymryd â gwiriadau cyflawnrwydd; prosesu taliadau; cydlofnodi ac anfon ceisiadau sydd wedi'u cwblhau i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd drwy'r post.

Rydym yn symud yn yr haf 2018 AGC yn ei phroses ymgeisio i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i ddarparwr trydydd parti (Vibrant Nation). Yn gyffredinol, bydd hyn yn gwneud y broses ymgeisio'n brofiad digidol ar y cyfan ar gyfer holl ymgeiswyr y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac yn lleihau cymhlethdod a swm y data/yr wybodaeth y mae gofyn i ni ei reoli.

### **Y Map Proses**

Am drosolwg o'r ffordd y bydd proses y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gweithredu, mae'r map proses canlynol yn nodi'r rolau priodol i chi; AGC a'n darparwr trydydd parti (CBS).



**Gwiriadau cymhwysedd**

Mae'n rhaid i AGC ymgymryd â gwiriad cymhwysedd am bob ymgeisydd ar ddechrau proses y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Dim ond pobl sy'n gymwys am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n gallu cael eu cyfeirio at borth ar-lein y trydydd parti i gwblhau cais am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

I fodloni'r meini prawf cymhwysedd am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gydag AGC, mae'n rhaid i chi wneud y canlynol:

- Bod yn 16 oed neu'n hŷn;
- Gweithio neu gymryd rhan mewn rôl neu weithgaredd yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a/neu oedolion diamddiffyn neu â'r potensial i ddod i gysylltiad â hwy.
- Gweithio mewn maes gweithlu rhagnodedig i blant a/neu oedolion neu fod yn rhan ohono; a
- Bod yn gymwys am [wiriad](#)<sup>1</sup> Uwch gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (â rhestr wahardd).

**Adnewyddu gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Os oes angen i chi adnewyddu'ch tystysgrif bresennol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyda ni, argymhellwn nad ydych yn cyflwyno cais nes un mis cyn dyddiad

1

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/674523/Guide\\_to\\_eligibility\\_v9.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/674523/Guide_to_eligibility_v9.pdf)

adnewyddu'ch cais. Mae ein proses ar-lein yn gyflym a chaiff y rhan fwyaf o'r gwiriadau eu cwblhau o fewn 10 diwrnod. Gallant weithiau gymryd yn hwy lle ceir gwybodaeth ar y dystysgrif a/neu os ydych yn byw mewn ardal fetropolitan fawr.

Nid oes rhaid i chi ddefnyddio ein system ar-lein a gallwch gael gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn annibynnol os oes modd i chi wneud hynny (nid yw hyn yn berthnasol i wasanaethau maethu, gwasanaethau mabwysiadu na gwasanaethau lleoliadau oedolion y mae angen cydlofnodi eu tystysgrif gan Weinidogion Cymru). Rhaid i dystysgrif DBS a gafwyd yn annibynnol:

- Cynnwys Gwiriad Manylach o'r Rhestrau Gwaharddedig;
- Bod wedi'i rhoi ar gyfer y maes cywir;
- Cael ei chyflwyno i AGC (yn bersonol neu drwy'r post) o fewn tri mis i'r dyddiad dynoddi.

Os nad ydych eisoes wedi gwneud, mae'n rhaid i chi gysylltu ag AGC yn y lle cyntaf drwy ffonio **0300 7900 126** a gofyn am wiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gennym. Unwaith y byddwn wedi cadarnhau'ch cymhwysedd am wiriad ac wedi dweud wrth ein darparwr trydydd parti am hyn, byddwch yn derbyn dolen drwy e-bost ar wahân i'w porth ar-lein; cyfeirnod unigryw ac enw defnyddiwr. Dylech ddefnyddio'r rhain i fewngofnodi ar ein system ar-lein i gwblhau eich ffurflen gais gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

**Cael ei chyflwyno i AGC (yn bersonol neu drwy'r post) o fewn tri mis i'r dyddiad dynoddi. Ein darparwr trydydd parti**

Caiff holl wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan AGC eu cynnal gan ddarparwr trydydd parti (Vibrant Nation). Caiff y rhan fwyaf o'r broses ei chynnal drwy ei system ar-lein. Bydd hyn yn haws ac yn gynt i chi.

Bydd AGC yn rhan o dri cham pwysig yn unig:

- Cymhwysedd;
- Gwiriadau adnabod; ac
- Ystyried gwybodaeth 'gadarnhaol' sydd wedi'i chynnwys ar dystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Unwaith i ni gadarnhau eich cymhwysedd, byddwn yn anfon e-bost a manylion mewngofnodi atoch (enw defnyddiwr a rhif adnabod unigryw) gan ein darparwr trydydd parti. Bydd angen i chi fewngofnodi'r manylion hyn ar dudalen gofnodi'r darparwr. Unwaith y cânt eu derbyn, cewch eich cyfeirio at y porth ymgeisio ar-lein. Bydd y dudalen lanio'n dangos yr wybodaeth ganlynol ac yn gofyn amdani:

<b>Enw'r cwmni:</b>	<u>Arolygiaeth Gofal Cymru</u>
<b>Enw defnyddiwr:</b>	<u>XXXXXX</u>

<b>Cyfrinair (neu gyfeirnod):</b>	<u>XXXXXX</u>
-----------------------------------	---------------

Unwaith y byddwch wedi mewngofnodi'n llwyddiannus i'r wefan, bydd ein darparwr trydydd parti'n rheoli'r broses ffurflen gais yn electronig. Mae'r system wedi'i dylunio i fod yn sensitif i fewnbwn gwybodaeth anghywir, anghytûn neu anghyson a lle mai dyma yw'r achos, bydd gofyn i chi ddiwygio'r wybodaeth.

### **Talu ffioedd**

Mae gofyn i'r holl ymgeiswyr dalu ffi'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a ffi weinyddol.

Bydd y darparwr trydydd parti'n cymryd y taliad drwy ei borth ar-lein yn ystod y broses ymgeisio. Gallwch dalu drwy *PayPal* neu ar gerdyn ddebyd neu gredyd (ac eithrio American Express); nid oes modd talu gydag arian parod na sieciau. Nid oes modd ad-dalu unrhyw ffioedd.

Mae hon yn system ddiogel ac ni chaiff eich manylion talu eu storio neu eu defnyddio at unrhyw ddibenion eraill.

### **Gwiriadau adnabod gydag AGC**

Unwaith y byddwch wedi cwblhau eich manylion ymgeisio, bydd gofyn i chi drefnu apwyntiad gyda'r AGC i gael eich adnabod. Fe'ch anogir i chi drefnu eich apwyntiad pan fyddwch wedi cwblhau'ch ffurflen ymgeisio ar-lein - ond cyn y caiff ei chydlofnodi a'i hanfon at y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae'n ofynnol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd i wiriad adnabod gael ei gynnal ar gyfer pob person sy'n ymgeisio a bod hwn yn cael ei wneud 'wyneb yn wyneb'. Dewiswch ddiwrnod i drefnu apwyntiad sy'n gyfleus i chi - ar hyn o bryd cynhelir apwyntiadau yn un o'n swyddfeydd. Fel arfer, bydd y rhain yn cymryd oddeutu ugain munud.

Yn anffodus, dim ond yn un o'n tair swyddfa y gallwn gynnal apwyntiadau Gwirio Hunaniaeth ac mae'n ofynnol i bob ymgeisydd fod yn bresennol yn ei apwyntiad. Ni allwn gytuno ar drefniadau eraill ar hyn o bryd.

**Pwysig:** Mae'n hanfodol eich bod yn dod â'r [dogfennau adnabod](#)<sup>2</sup> cywir gyda chi i'ch apwyntiad - mae'n rhaid i'r rhain fod yn gopiâu gwreiddiol ac nid yn gopiâu. Os nad ydych yn gwneud hyn, ni fyddwn yn gallu cwblhau eich gwiriad adnabod. Gall hyn olygu oedi o ran eich cais gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a pheri oedi yn eich cais i gofrestru neu adnewyddu gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

---

<sup>2</sup> <https://www.gov.uk/criminal-record-check-documents>

Mae'r wybodaeth ganlynol wedi'i haddasu o ganllawiau gwiriadau adnabod y [Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd](#)<sup>3</sup> gwiriadau adnabod y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac mae'n rhaid dilyn y rhain ym mhob achos:

- Gallwn ond derbyn dogfennau dilys, cyfredol a gwreiddiol;
- Ni allwn dderbyn dogfennau sydd wedi cael eu llungopïo;
- Ni allwn dderbyn dogfennau sydd wedi'u hargraffu o'r rhyngwyd e.e. cyfriflenni dros y rhyngwyd;
- Mae'n rhaid i'r wybodaeth adnabod ar gyfer eich enw, eich dyddiad geni a'ch cyfeiriad fod yn ddilys;
- Yn y lle cyntaf, byddwn yn ceisio dogfennau â lluniau adnabod (e.e. pasbort, trwydded yrru arddull newydd, ac ati.) a chaiff y rhain eu cymharu yn erbyn eich tebygrwydd;
- Mae'n rhaid bod yr holl ddogfennau dan eich enw cyfredol;
- Mae'n rhaid i un ddogfen gadarnhau eich dyddiad geni;
- Mae'n rhaid i ni sicrhau eich bod yn datgan eich holl newidiadau enwau, a darparu dogfennau'n profi unrhyw newid mewn enw. Os na allwch wneud hyn, byddwn yn trafod y rhesymau pam gyda chi cyn ystyried y ffordd orau i'ch dilysu;
- Mae'n rhaid i ni weld o leiaf un ddogfen i gadarnhau eich cyfeiriad presennol fel a gofnodwyd yn adran B, yn unol â'r canllaw;
- Mae'n rhaid i chi ddarparu hanes cyfeiriad llawn a pharhaus ar gyfer y pum mlynedd ddiwethaf. Lle bo modd, dylech geisio dogfennau i gadarnhau'r hanes cyfeiriad hwn;
- Byddwn yn cydweddu eich hanes cyfeiriad ag unrhyw wybodaeth arall rydych wedi'i darparu fel rhan o'ch cais. Lle ceir anghysondeb, efallai y bydd angen i ni ofyn mwy o gwestiynau am hyn;
- Dylai dogfen gan bob un o'r grwpiau gael ei chynnwys unwaith yn unig yn y cyfrif dogfennau e.e. nid ydym yn derbyn dwy gyfriflen fel dwy ddogfen ofynnol os ydynt o'r un banc; ac
- Ni allwn dderbyn dogfen adnabod dramor gyfwerth os yw'r ddogfen honno wedi'i rhestru fel '(DU)' ar y rhestr o ddogfennau adnabod dilys.

---

3

[https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment\\_data/file/656625/LATEST\\_021117\\_ID\\_checking\\_guidelines\\_for\\_DBS\\_checking\\_from\\_October\\_24th.pdf](https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/656625/LATEST_021117_ID_checking_guidelines_for_DBS_checking_from_October_24th.pdf)

Unwaith i ni gadarnhau ein bod wedi eich adnabod, byddwn yn cadarnhau drwy e-bost i'n darparwr trydydd parti fod eich gwiriad adnabod wedi bod yn llwyddiannus. Yna bydd ein darparwr trydydd parti'n cydlofnodi'ch cais ar-lein a'i anfon i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn ei brosesu.



## **Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Mae AGC yn argymhell bod yr holl ymgeiswyr yn achub ar y cyfle i danysgrifio i Wasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd - yn ystod y broses ymgeisio ar-lein yn ddelfrydol. Drwy wneud hyn, gallwch achub ar fanteision y gwasanaeth; mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwasanaeth ar-lein sy'n gyflym ac yn gyfleus i chi ei ddefnyddio;
- Y gallu i reoli eich gwiriad eich hun gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd at ddibenion cyflogaeth a gwirfoddoli;
- Peidio â gorfod adnewyddu'ch tystysgrif bob tair blynedd - cyhyd â'ch bod yn cynnal eich tanysgrifiad Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ac nid oes unrhyw wybodaeth newydd yn cael ei datgelu yn ystod eich gwiriad statws;
- Arbed arian a chostau i chi o orfod teithio i swyddfa AGC i adnewyddu'ch tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; ac
- Ni all AGC bellach dderbyn sicrwydd Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd bellach (ar gyfer y rhan fwyaf o ymgeiswyr); hyd yn oed (fel yn y rhan fwyaf o achosion) nad oedd eich tystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wreiddiol wedi'i chydlofnodi gan Weinidogion Cymru.

Yn ogystal, mae Gweinidogion Cymru - am y flwyddyn ariannol 2018/19 - wedi cytuno i ariannu'ch ffi danysgrifio am y flwyddyn gyntaf (£13 ar hyn o bryd). Caiff hyn ei ddiwyddu o'ch taliad ar-lein.

Os ydych yn dewis tanysgrifio i Wasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, bydd ein darparwr trydydd parti'n rhoi gwybod i ni eich bod wedi gwneud hynny.

## **Gwasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd – y llwybr annibynnol**

Nid oes rhaid i chi ddefnyddio ein darparwr trydydd parti i danysgrifio i Wasanaeth Diweddarau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Hefyd, gallwch danysgrifio'n annibynnol ac yn uniongyrchol gyda'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gan ddefnyddio eich tystysgrif newydd.

Os ydych yn tanysgrifio'n annibynnol, gallwch hefyd adennill eich tanysgrifiad i'r Gwasanaeth Diweddarau ar gyfer y flwyddyn gyntaf drwy gysylltu â ni a nodi manylion eich tanysgrifiad (eich enw, eich tystysgrif a'ch cyfeirnod Gwasanaeth Diweddarau) a chadarnhau eich bod yn rhoi caniatâd i AGC gynnal gwiriadau statws ar eich tystysgrif gan y Gwasanaeth Diweddarau.

### **Gwirio statws eich tystysgrif ar-lein**

Pan fyddwch yn tanysgrifio, bydd gofyn i chi gadarnhau eich bod yn cytuno i AGC gynnal gwiriadau statws bob hyn a hyn o'ch tystysgrif ar-lein. Mae hyn i gadarnhau nad yw statws eich tystysgrif wedi newid ers ei lanlwytho'n wreiddiol.

Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fydd unrhyw newid i statws tystysgrif - golyga hyn nad yw'r dystysgrif wreiddiol yn cynnwys unrhyw wybodaeth - nac unrhyw wybodaeth newydd - neu dim gwybodaeth newydd.

Fodd bynnag, mewn nifer bach o achosion, bydd y gwiriad statws yn nodi bod gwybodaeth newydd wedi cael ei derbyn. Ni fydd y gwiriad yn datgelu natur yr wybodaeth newydd i ni. I weld eich gwybodaeth newydd, bydd angen i ni gysylltu â chi a dweud wrthyfod fod eich statws ar-lein wedi newid. Bydd angen i chi gwblhau cais newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Mae'n debygol y bydd angen i ni drafod hyn ymhellach gyda chi (mantais Gwasanaeth Diweddarur'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yw na fydd rhaid i chi wneud hyn bellach lle nad oed unrhyw wybodaeth newydd wedi cael ei datgelu).

Byddwn yn cymryd golwg cymesur o unrhyw wybodaeth o'r fath a mynd i'r afael â phob esiampl fesul achos.

**Sylwer:** Os ydych wedi cofrestru gyda ni, neu'r ydych fel arall yn destun tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd sy'n gysylltiedig â gwasanaeth cofrestredig, mae'n ofynnol gennych yn gyfreithiol i ddweud wrthym am unrhyw gollfarn neu rybudd gan yr heddlu. Bydd methu â gwneud hyn hefyd yn nodi methiant rheoleiddiol ac mae hyn yn debygol o gael ei drafod ymhellach gyda chi.

### **Gwirio Tystysgrifau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

Er nad oes rhaid i chi danysgrifio i Wasanaeth Diweddarur'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, bydd ein darparwr trydydd parti yn parhau i ddweud wrthym os yw eich gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi cael ei gwblhau'n llwyddiannus. Unwaith eto, bydd gofyn i chi gadarnhau eich bod yn cytuno i hyn.

Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd y rhybudd hwn yn dynodi bod eich gwiriad sydd wedi'i gwblhau wedi cael ei ddychwelyd ac nid yw'n cynnwys unrhyw wybodaeth – neu ddim gwybodaeth newydd.

Fodd bynnag, lle nad yw eich gwiriad yn cynnwys gwybodaeth newydd ('gadarnhaol'), byddwn yn cael gwybod am hyn ac yn gwneud y canlynol:

- Gofyn i weld eich tystysgrif wreiddiol o fewn tri mis ers ei chyhoeddi ddiwethaf;
- Ystyried cynnwys y dystysgrif; ac
- Dychwelyd eich tystysgrif atoch drwy'r post lle y bo'n bosib.

Os ydym eisoes yn gwybod am yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn eich tystysgrif ac mae wedi cael ei hystyried yn flaenorol, ni fydd rhaid i ni gymryd unrhyw gamau gweithredu eraill. Fodd bynnag, os yw'r wybodaeth yn newydd efallai y bydd angen i ni drafod hyn ymhellach gyda chi.

**Sylwer:** Mae gofyn i bersonau sydd wedi'u cofrestru gyda ni, neu sydd fel arall yn destun tystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd mewn perthynas â gwasanaeth cofrestredig, ddweud wrthym am unrhyw gollfarn neu rybudd gan yr heddlu. Bydd methu â gwneud hyn yn nodi methiant rheoleiddiol ac mae hyn yn debygol o gael ei drafod ymhellach gyda chi.

### **Trin Gwybodaeth**

Rydym yn prosesu gwybodaeth bersonol a/neu sensitif yn deg ac yn gyfreithlon a byddwn ond yn gofyn am wybodaeth lle mae'n angenrheidiol i ni gynnal ein rôl. I gael mwy o wybodaeth am sut rydym yn prosesu data personol, gweler ein [Hysbysiad Preifatrwydd](#)<sup>4</sup>

### **Rhagor o Wybodaeth**

Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy ddilyn y dolenni canlynol:

<https://arolygiaethgofal.cymru/archwiliadau-gan-y-gwasanaeth-datgelu-gwahardd-archwiliadau-gan-y-swyddfa-cofnodion-troseddol>

<https://www.gov.uk/government/collections/dbs-update-service-promotional-material>

<https://www.vibrantnation.co.uk/ciw-cymru>

Mae ein darparwr trydydd parti hefyd yn cynnig llinell gymorth ddwyieithog â chymorth dros y ffôn drwy ffonio **02920 334 995** rhwng 8.30am a 5.30pm, dydd Llun i ddydd Gwener (ac eithrio gwyliau banc).

---

<sup>4</sup> <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>